



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru

Mawrth 2014

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Egwyddorion	7
Trefniadau Arferol	7
Nodi Pryder Difrifol posibl	8
Diffinio Pryder Difrifol	
Sefydlu a oes angen cymryd camau	
Camau i ymdrin â mater difrifol	10
Monitro Uwch	
Ymyrraeth wedi'i Thargedu	
Mesurau Arbennig	
Diwedd Ymyrraeth	11


Rhagair

Mae GIG Cymru'n ceisio darparu'r gofal gorau un i gleifion bob amser. Fodd bynnag, mae materion yn medru codi weithiau sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir, effeithiolrwydd sefydliadol ac ansawdd a diogelwch y gofal. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r sefydliad dan sylw yn ymateb yn briodol. Serch hynny, ar adegau mae angen gweithredu cydlynol sy'n cynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldeb am oruchwyllo, arolygu a rheoleiddio'r system gofal iechyd.

Mae'r trefniadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cydweithio i ganfod ac ymateb i faterion difrifol sy'n effeithio ar GIG Cymru.

Bydd rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn effeithiol yn ei gwneud yn bosibl canfod pryderon, a all fod yn ddifrifol, yn gynnar. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd a gyda chyrrff perthnasol y GIG er mwyn sicrhau y cymerir camau ymatebol priodol.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio mewn partneriaeth glos i ddatblygu a chytuno ar y trefniadau hyn. Byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i'r trefniadau gael eu gweithredu.




David Sissling

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /
Prif Weithredwr GIG Cymru

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau ar y cyd sydd wedi eu sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol¹ ar gyfer nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau'r GIG, ansawdd a diogelwch gofal, ac effeithiolrwydd sefydliadol. Mae Diagram 1 yn rhoi darlun cyffredinol o'r trefniadau ar y cyd hyn. Ei nod yw cefnogi cyrrff y GIG drwy sicrhau bod materion â'r potensial i fod yn ddifrifol yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl ac yr ymdrinnir â hwy'n effeithiol.


Diagram 1: Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru – Trosolwg



¹ Mae'r term cyrrff adolygu allanol yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at Archwilydd Cyffredinol Cymru, staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol <http://www.wao.gov.uk/> ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru <http://www.hiw.org.uk/>. Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â'u swyddogaethau penodol ar eu gwefannau.

2. Mae'n adlewyrchu sut y bydd gwybodaeth yn cael ei chyfnewid a'i defnyddio mewn modd prydlon, y sbardunau a'r rhesymau dros gynyddu camau gweithredu ac ymyrraeth, a phwy fydd yn cymryd y camau hynny. Mae **Diagram 2** yn nodi sut y mae'r trefniadau ar y cyd hyn yn gweithio.
3. Mae'n ategu ac yn gwella'r trefniadau sydd eisoes wedi eu sefydlu i rannu gwybodaeth a rheoli perfformiad o ran risg, ac mae'n gweithredu ochr yn ochr â Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru neu unrhyw ddogfen olynol.
4. Nid oes dim yn y ddogfen hon sy'n taseilio disgresiwn, nac yn amharu ar annibyniaeth statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru, annibyniaeth weithredol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, na chyfrifoldeb Gweinidogion Cymru o ran goruchwyliaeth strategol a gweithredol GIG Cymru; sy'n parhau i fod yn atebol i Lywodraeth Cymru.

Diagram 2: Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru



Egwyddorion

5. Mae'r egwyddorion sy'n llywodraethu'r trefniadau cynyddu camau gweithredu ac ymyrraeth ar gyfer ymdrin â materion difrifol sy'n wynebu GIG Cymru wedi eu nodi yn **Niagram 3**.

Diagram 3: Principles

- Mae'r trefniadau ar y cyd wedi eu seilio ar ddulliau rhannu gwybodaeth effeithiol a rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol, a defnyddir y trefniadau hyn i benderfynu a oes pryderon difrifol².
- Bydd Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol yn hysbysu corff y GIG am y rhesymau am gynyddu camau gweithredu ac ymyrraeth, pryd bynnag y gwneir hynny.
- Bydd ffurf a graddau'r camau a gymerir yn gymesur â difrifoldeb y mater dan sylw a'r angen i sicrhau gwelliannau yn brydlon ac yn effeithiol. Fel arfer, disgwylir i gorff y GIG wneud y gwelliannau angenrheidiol ei hun.
- Disgwylir i gyrff y GIG ddarparu ymatebion cywir a phrydlon i geisiadau am wybodaeth, a chydweithio â chamau a gymerwyd dan y trefniadau ar y cyd hyn.
- Bydd Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol yn ceisio cydgysylltu ceisiadau am wybodaeth er mwyn osgoi rhoi gormod o faich ar gyrff y GIG.
- Nid yw'r trefniadau hyn wedi eu cynllunio i ymdrin â chwynion unigol; y llwybr ar gyfer hyn yw drwy'r sianeli sydd eisoes yn bodoli er enghraifft *Gweithio i Wella*³.
- Bydd gweithrediad y trefniadau ar y cyd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol.

Trefniadau Arferol

6. Mae pob corff y GIG yng Nghymru yn gyfrifol am gynnal trefniadau llywodraethu priodol i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gofal diogel o ansawdd da i gleifion.
7. Nod cyrff adolygu allanol yw cydgysylltu eu rhaglenni gwaith blynyddol⁴ i geisio cael sicrwydd bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd diogel, effeithiol ac effeithlon. Bydd y cyrff adolygu allanol fel arfer yn ymdrin â materion trwy eu sianeli hysbysu arferol.

² Gallai hyn fod trwy rannu adroddiadau drafft a therfynol; rhannu data am berfformiad (gan gynnwys trwy <http://mylocalhealthservice.wales.gov.uk/#/cy>); cynnal cyfarfodydd rheolaidd a thelegynadledda ac ati.

³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=932>

⁴ Pan fo hynny'n briodol, mae cyrff adolygu allanol yn mabwysiadu dull ar y cyd ar gyfer cynllunio busnes ac maent yn ceisio datblygu rhaglenni gwaith blynyddol sy'n cyd-fynd â'i gilydd ac sy'n dileu dyblygu gwaith. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefannau: <http://www.wao.gov.uk/> a <http://www.hiw.org.uk/>.

8. Mae Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru⁵ yn ei galluogi i geisio cael sicrwydd bod cyrff y GIG yng Nghymru yn gweithio yn unol â blaenoriaethau ac yn codi safonau. Yn rhan o hyn, ceir ystod o ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fonitro cyrff GIG Cymru. Os oes awgrym nad yw cyrff y GIG yn gwneud cystal ag y dylent, bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i hyn gyda chorff perthnasol y GIG, a phan nodir problemau, bydd yn ofynnol i gorff y GIG cymryd camau i'w datrys. Mae hyn yn unol â Fframwaith Cyflawni GIG Cymru sy'n cynnwys nifer o lefelau o ymyrraeth, gan gynnwys monitro.
9. Bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol yn cyfarfod bob chwe mis (ac yn y cyfamser os oes pryderon difrifol yn codi) i rannu gwybodaeth a nodi materion yn gynnar er mwyn gallu eu datrys yn effeithiol.
10. Bydd y cyrff adolygu allanol yn defnyddio'r wybodaeth hon i wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith eu hunain a gallent benderfynu diwygio cwmpas darn o waith neu gynnal gwaith sydd wedi ei gynllunio ynghynt nag y bwriadwyd er mwyn archwilio mater penodol yn fwy manwl.
11. Gallai corff y GIG hefyd fynd at Lywodraeth Cymru a/neu gorff adolygu allanol i amlygu problemau posibl a'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i ymdrin â hwy. O ganlyniad i hyn, gallai corff y GIG ofyn i Lywodraeth Cymru neu gyrff adolygu allanol styried cynnal darn penodol o waith i ymateb i'r materion hyn.

Nodi Pryder Difrifol posibl

12. O bryd i'w gilydd, gallai'r trefniadau arferol a amlinellir uchod amlygu pryder a allai fod yn ddifrifol o ran darpariaeth, ansawdd a diogelwch gwasanaeth gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol corff y GIG.

Diffinio Pryder Difrifol

13. Mae pryder difrifol o ran darpariaeth, ansawdd a diogelwch gwasanaeth gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol, yn codi pan fydd yn ymddangos bod problemau'n rhy ddifrifol, yn digwydd yn rhy aml neu'n parhau am gyfnod rhy hir i allu ymdrin â hwy drwy'r trefniadau arferol.

⁵ <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/framework/?skip=1&lang=cy>

14. Gallai pryderon gael eu sbarduno gan ddigwyddiad unigol neu gyfuniad o ffactorau a allai fod yn berthnasol i feysydd fel:
 - Ansawdd a diogelwch gofal
 - Gallu i gyflawni gwaith a chymhwysedd
 - Rheoli ariannol
 - Cynllunio
 - Trefniadau llywodraethu eraill
 - Materion perfformiad eraill
 - Digonolrwydd ymateb Corff y GIG ar gyfer rhoi sylw i bryderon

Sefydlu a oes angen cymryd camau

15. Pan fydd pryder difrifol yn codi, bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol yn cynnal cyfarfod arbennig i asesu'r wybodaeth sydd ar gael ac i geisio sefydlu pa un a oes angen cymryd camau. Gellid gwneud ceisiadau i gorff y GIG ac unrhyw drydydd parti perthnasol am fwy o wybodaeth i gynorthwyo â'r gwerthusiad hwn.
16. Os nad yw'n amlwg ar unwaith beth yw natur y broblem a beth sydd wedi ei achosi, gallai Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol, fel sy'n briodol, benderfynu cynnal darn byr o waith penodol ar y cyd â chorff y GIG i archwilio'r pryder ymhellach.
17. Hysbysir corff y GIG yn swyddogol bod Llywodraeth Cymru a/neu gyrff adolygu allanol o'r farn bod pryder difrifol yn bodoli sydd o bosibl yn effeithio ar ddarpariaeth, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol.
18. Bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol, fel sy'n briodol, yn gweithio'n agos gyda chorff y GIG i sicrhau bod unrhyw bryderon difrifol posibl yn cael eu harchwilio a'u bod yn deall yr hyn a'u hachosodd.
19. Tra bod pryder difrifol yn cael ei ystyried, bydd corff y GIG fel arfer yn parhau i fod yn destun trefniadau arferol.
20. Pan fydd y gwaith o archwilio'r pryderon wedi ei gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol yn rhannu gwybodaeth a chynlluniau gweithredu posibl er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i benderfynu pa gamau yw'r mwyaf priodol iddynt eu cymryd. Bydd Llywodraeth Cymru a/neu'r corff adolygu allanol yn hysbysu corff y GIG am y canlyniad, gan nodi'r rhesymau a chadarnhau unrhyw gamau.
21. Os nad oes achos i bryderu bellach, hysbysir corff y GIG a bydd y trefniadau arferol yn parhau.
22. Os penderfynir bod mater y mae angen cymryd camau i'w ddatrys (gyda gwasanaeth a/neu effeithiolrwydd sefydliadol) bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol, fel sy'n briodol, yn ystyried difrifoldeb y mater(ion), yr achosion tebygol a medrusrwydd a gallu corff y GIG i'w ddatrys (datrys) cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â ffurf a graddau'r camau sy'n ofynnol.

Camau i ymdrin â mater difrifol

23. Gallai'r penderfyniadau ynglŷn â'r dewis o ymyrraeth⁶, a'i threfn, ddibynnu ar y modd y daeth y mater(ion) difrifol i'r amlwg ac ymateb corff y GIG.
24. Nid y broses hon yn unig sy'n sbarduno'r ymyrraeth; mae Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol yn cadw'r hawl hefyd i gymryd camau y maent yn eu hystyried yn briodol, gan hysbysu'r gweddill.
25. Ym mhob achos, bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol, fel sy'n briodol, yn gweithio gyda chorff y GIG i gytuno ar amserlen eglur ar gyfer gweithredu'r gwelliant. Ceir tri math o ymyrraeth, pob un yn gam ychwanegol ar yr un blaenorol:
 - Monitro Uwch
 - Ymyrraeth wedi'i Thargedu
 - Mesurau Arbennig
26. Bydd y camau gweithredu'n cael eu cynyddu fel arfer pan fydd tystiolaeth sy'n dangos nad oes digon o welliannau amserol yn digwydd.
27. Yn dibynnu ar y math o broblem, gallai'r cynnydd yn y camau gweithredu a'r ymyrraeth fod yn berthnasol i gorff cyfan y GIG neu wasanaeth penodol y mae'n ei ddarparu.
28. Nodir disgrifiad o bob math o ymyrraeth isod.

Monitro Uwch

29. Mae corff y GIG yn dangos ei fod yn ymateb yn rhagweithiol er mwyn sefydlu prosesau effeithiol i ymdrin â'r mater(ion) a sbarduno gwelliant ei hun. Os ystyrir hynny'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol yn cydgysylltu eu gweithgaredd er mwyn monitro, herio ac adolygu'r hyn a gyflawnir yn fanwl. Bydd y gwaith monitro'n fwy aml na'r hyn a wneir dan y trefniadau arferol, a gallai hefyd fod ar ffurfiau mwy amrywiol, gan gynnwys telathrebu a chyfarfodydd rheolaidd yn ogystal ag adroddiadau ysgrifenedig a chyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys cynlluniau gweithredu wedi eu diweddarau a data ansoddol a meintiol.

Ymyrraeth wedi'i Thargedu

30. Yn ychwanegol at Fonitro Uwch, bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol yn ystyried a ddylid cymryd a chydgyssylltu camau ar y cyd â chorff y GIG i ystyried y meysydd y mae angen i gorff y GIG gryfhau ei fedruswydd a'i allu i gyflawni gwaith ynddynt er mwyn sbarduno gwelliannau.

⁶ Defnyddir y gair ymyrraeth yma i ddisgrifio unrhyw gamau a gymerir sy'n ychwanegol at y trefniadau arferol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol.

31. Gallai'r camau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd gynnwys trefnu mentora ar gyfer aelodau unigol o'r Bwrdd neu'r Tîm Gweithredol a phenodi unigolion profiadol â'r sgiliau clinigol a/neu lywodraethu angenrheidiol ar y Bwrdd am gyfnod penodol.
32. Gallai'r camau gan y cyrff adolygu allanol gynnwys gwaith adolygu penodol a fydd yn arwain at gyhoeddi adroddiad, un ai ar y cyd neu yn unigol.

Mesurau Arbennig

33. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) ac Archwilydd Cyffredinol Cymru nodi pryderon ynglŷn â chorff y GIG, ac i ymateb i hynny gallai Gweinidogion Cymru Ymyrryd fel a nodir yn Neddf GIG (Cymru) 2006 [adrannau 26-28] a'r rheoliadau cysylltiedig⁷.
34. Gallai camau ymyrraeth gan Weinidogion Cymru gynnwys gwahardd dros dro neu atal pwerau a dyletswyddau aelodau unigol neu holl aelodau Bwrdd corff y GIG.
35. Hefyd, gallai Gweinidogion Cymru ystyried defnyddio Pwerau Cyfarwyddo neu Bwerau Argyfwng sy'n caniatáu iddynt orchymyn bod un o swyddogaethau corff y GIG yn cael ei gyflawni gan gorff arall am gyfnod penodol.
36. Ystyrir y pwerau ffurfiol hyn yn ddewis olaf ac fel arfer fe'u defnyddir dim ond pan fo pob ymyrraeth arall yn annhebygol o lwyddo. Nid yw'r un o'r cyrff adolygu allanol yn cymryd camau ymyrraeth o'r fath eu hunain.

Diwedd Ymyrraeth

37. Bydd corff y GIG yn cael ei hysbysu, ar adeg cynyddu'r camau gweithredu, beth fydd y meini prawf ar gyfer lleihau'r camau gweithredu. Y nod cyffredinol yw cefnogi cyrff y GIG sy'n destun trefniadau ymyrraeth i gyflawni'r gwelliannau gofynnol ac ymdrin ag unrhyw fater(ion) yn effeithiol er mwyn iddynt allu dychwelyd i drefniadau arferol cyn gynted â phosibl.
38. Pryd bynnag y bo'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol yn cydgysylltu eu gweithgareddau er mwyn monitro, herio ac adolygu'n fanwl yr hyn a gyflawnir gan gorff y GIG. Os yw corff y GIG yn gallu dangos tystiolaeth o welliannau digonol a phrydlon, bydd Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol yn rhannu gwybodaeth er mwyn eu galluogi i ystyried pa un a fyddai'n briodol lleihau'r trefniadau ymyrraeth a orfodwyd arno.

⁷ Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 a Rheoliadau Ymddiriedolaeth GIG (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990.